COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Arolwg o Drefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Caerffili

# Adroddiad Argymhellion Terfynol

Mawrth 2026

© Hawlfraint CDFfC 2026

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i: http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn: ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn: www.cdffc.llyw.cymru

# RHAGAIR

Mae'r Comisiwn yn falch o gyflwyno'r Adroddiad hwn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, sy'n cynnwys ei argymhellion ynglŷn â threfniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Cynhelir yr arolwg hwn o drefniadau etholiadol Bwrdeistref Sirol Caerffili o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013 ("Deddf 2013") a dogfen Polisi ac Ymarfer 2025 Rhaglen Arolygon Etholiadol y Comisiwn (Polisi ac Ymarfer 2025 y RhAE).

Wrth ddatblygu ein hargymhellion terfynol, rydym wedi ystyried cysylltiadau lleol a'r rhai sy'n dymuno cadw'r ffiniau presennol. Rydym wedi edrych yn ofalus ar bob cynrychiolaeth a gyflwynwyd i ni. Fodd bynnag, bu'n rhaid i ni gydbwyso'r materion a'r cynrychiolaethau hyn â'r holl ffactorau eraill y mae'n rhaid i ni eu hystyried, a'r cyfyngiadau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth. Yn benodol, y gofyniad am gydraddoldeb etholiadol, ochr yn ochr ag ystyriaethau daearyddol arbennig.

Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar i Aelodau a Swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am ei gynorthwyo â'i waith, i'r Cynghorau Cymuned a Thref am eu cyfraniadau gwerthfawr, ac i bawb a wnaeth gynrychiolaethau drwy gydol y broses.

**Karen Jones DL, MBA, MA(HRM), FCIPD**
**Cadeirydd**

## COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

## AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

## ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| Pennod 1 | Cyflwyniad | 5 |
| Pennod 2 | Crynodeb o'r Argymhellion Terfynol | 6 |
| Pennod 3 | Yr Argymhellion Terfynol | 9 |
| Pennod 4 | Ymatebion i'r Adroddiad hwn | 21 |
| Pennod 5 | Cydnabyddiaethau | 22 |

ATODIAD 1 TREFNIADAU ETHOLIADOL PRESENNOL
ATODIAD 2 TREFNIADAU ETHOLIADOL ARGYMELLEDIG



Argraffiad 1af Mawrth 2026


**Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg. Mae'r ddogfen ar hon ar gael yn Saesneg.**


Darparwyd y cyfieithiad o'r adroddiad hwn gan Trosol



*Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru*
*4ydd Llawr – Adeilad y Llywodraeth*
*Parc Cathays*
*CAERDYDD*
*CF24 0BL*
*Rhif Ffôn: (029) 2046 4819*
*Rhif Ffacs: (029) 2046 4823*
*E-bost:* ymholiadau@cdffc.llyw.cymru
*www.cdffc.llyw.cymru*

## Pennod 1. Cyflwyniad

1. Ar 4 Mehefin 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhellion fel y'u nodwyd yn Adroddiad Argymhellion Terfynol y Comisiwn ar gyfer yr arolwg o drefniadau cymunedol Caerffili. Mae'r Comisiwn yn deall y bydd yr argymhellion hynny'n cael eu gweithredu trwy gyfrwng Gorchymyn Gweinidogion Cymru. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnal ei arolwg etholiadol ar sail yr ardaloedd cymunedol yng Nghaerffili fel y byddant pan ddaw Gorchymyn Gweinidogion Cymru i rym. Disgwylir i'r Gorchymyn fod yn 'Gorchymyn Caerffili (Cymunedau) 2026'. At ddibenion yr Adroddiad hwn, mae'r Comisiwn yn cyfeirio at y trefniadau disgwyliedig a fydd ar waith ar ôl gweithredu Gorchymyn Caerffili (Cymunedau) 2026 wrth drafod y trefniadau 'presennol' ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Mae'r adroddiad Argymhellion Terfynol ar gyfer yr Arolwg Cymunedol ar gael ar wefan y Comisiwn.

2. Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) wedi cynnal arolwg o drefniadau etholiadol Bwrdeistref Sirol Caerffili. Cynhaliwyd yr arolwg yn unol â Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013 ("Deddf 2013").

3. Mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn i gynnal arolwg o bob un o'r 22 Prif Gyngor yng Nghymru bob 12 mlynedd. Gellir gweld y rheolau a'r gweithdrefnau y mae'r Comisiwn yn eu dilyn yn nogfen Rhaglen Arolygon Etholiadol 2025: Polisi ac Ymarfer y Comisiwn, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn (Polisi ac Ymarfer 2025 y RhAE).

4. Ar ôl cwblhau'r arolwg o ardal y prif gyngor a chyflwyno argymhellion y Comisiwn ynglŷn â threfniadau etholiadol y prif awdurdod yn y dyfodol i Lywodraeth Cymru, mae'r Comisiwn wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf. Dylai unrhyw sylwadau pellach ynglŷn â'r materion yn yr adroddiad hwn gael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Rhoddir manylion ynglŷn â sut i ymateb i'r ymgynghoriad ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

5. Dylai'r holl ffiniau Gwlad, Etholaeth y Senedd, Etholaeth Seneddol San Steffan, Awdurdod Lleol, Ward Etholiadol, Cymuned, Wardiau Cymunedol neu Ddosbarth Pôl sydd wedi'u lleoli ar arfordir Cymru alinio â ffin Marc Cymedrig y Distyll fel y'i dangosir gan Linell Ffin gyfredol yr Arolwg Ordnans, neu ddata ffiniau a gynhyrchwyd gan y Gronfa Ddata Ddaearyddol Genedlaethol (NGD).

6. Bydd ffin Marc Cymedrig y Distyll a ddangosir o fewn Llinell Ffin yr Arolwg Ordnans neu ddata ffiniau a gynhyrchwyd gan yr NGD yn newid yn naturiol ac yn raddol dros amser a bydd yn cael ei diweddaru'n gyfnodol gan yr Arolwg Ordnans yn rhan o'i brosesau diwygio. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y data ffiniau a gyflenwir gan yr Arolwg Ordnans.

## Pennod 2. CRYNODEB O'R ARGYMHELLION TERFYNOL

1. Mae'r Comisiwn yn argymell newid i drefniant wardiau etholiadol a ddylai sicrhau bod wardiau etholiadol llywodraeth leol yn parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar draws ardal y prif gyngor. Bydd y newid argymelledig i drefniant wardiau etholiadol yn gwella cydraddoldeb etholiadol ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili.

2. Mae'r Comisiwn yn argymell cyngor â 68 o aelodau, sy'n llai na'r 69 o aelodau a argymhellwyd yn Arolwg Cymunedol Caerffili. Mae hyn yn arwain at gyfartaledd sirol argymelledig o 1,982 o etholwyr fesul aelod.

3. Mae'r Comisiwn yn argymell 30 o wardiau etholiadol.

4. Y dangynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) yn yr argymhellion yw **Crosskeys** (26% yn uwch na'r cyfartaledd sirol argymelledig). Ar hyn o bryd, mae'r dangynrychiolaeth fwyaf yn **Crosskeys** (28% yn uwch na'r cyfartaledd sirol).

5. Yr orgynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) yn yr argymhellion yw **Ynys-ddu** (24% yn is na'r cyfartaledd sirol argymelledig). Ar hyn o bryd, mae'r orgynrychiolaeth fwyaf yn **Ynys-ddu** (23% yn is na'r cyfartaledd sirol).

6. Mae'r Comisiwn yn argymell 24 o wardiau aml-aelod yn y sir, sef: deuddeg o wardiau etholiadol â dau aelod; deg ward etholiadol â thri aelod; a, dwy ward etholiadol â phedwar aelod.

7. Mae'r Comisiwn wedi argymell cadw trefniadau etholiadol presennol 27 o wardiau etholiadol.

8. Nid yw'r Comisiwn yn cynnig cael unrhyw wardiau etholiadol yn y sir sy'n cyfuno rhan o gymuned â wardiau â chymuned gyfagos, gan arwain at 'gymunedau hollt'.

9. Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Mae'r holl gynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn yn unol â'n polisi cyhoeddi a golygu.


10. Cafodd y Comisiwn 54 o gynrychiolaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CCBCCPWG), 8 Cynghorydd Sir (11 o gynrychiolaethau), 2 Gynghorydd Cymuned, 1 Cyngor Tref a 38 o aelodau'r cyhoedd (39 o gynrychiolaethau). Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau'n ofalus cyn llunio ei argymhellion. Mae'r holl gynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn yn unol â'n polisi cyhoeddi a golygu.

### Mapiau Crynhoi


11. Ceir mapiau thematig ar y tudalennau canlynol sy'n dangos y trefniadau presennol ac argymelledig a sut maen nhw'n amrywio o gyfartaleddau presennol ac argymelledig y sir, sef 1,954 a 1,982 o etholwyr fesul aelod, yn y drefn honno. Mae'r ardaloedd gwyrdd o fewn +/-10% o gyfartaledd y sir; mae'r ardaloedd melyn a chroeslinellau melyn rhwng +/-10% a +/-20% o gyfartaledd y sir; mae'r ardaloedd oren a chroeslinellau oren rhwng +/-20% a +/-50% o gyfartaledd y sir; ac, mae'r ardaloedd coch a chroeslinellau coch dros +/-50% o gyfartaledd y sir.

12. Fel y gellir gweld o'r mapiau hyn, mae'r trefniadau argymelledig yn gwella cydraddoldeb etholiadol ar draws y sir.

# Caerffili- Amrywiant Presennol mewn Cynrychiolaeth Etholaethol yn ôl y Gyfartaledd Sirol




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


Caerffili- Amrywiant mewn Cynrychiolaeth
Ethoiaethol yn ôl y Gyfartaledd Sirol Arfaethedig
0
10
Cilomedrau
Graddfa 1:128,400
Wardiau Etholaethol Caerffili
Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol Arfaethedig
Rhwng 20% a 50% yn uwch (1)
Rhwng 10% a 20% yn uwch (9)
Rhwng +/- 10% (12)
Rhwng 10% a 20% yn is (6)
Rhwng 20% a 50% yn is (2)
Twyncarno
Moriah Pontlotyn
Tredegar Newydd
Cwm Darran
Argoed
Crymlyn
1
2
3
10
Sant Catwg
4
Trecelyn
5
Pontllan-fraith
Aber-carn
Nelson
Ystrad Mynach
6
Ynys-ddu
Crosskeys
Cwm Aber
7
Rhisga
Bedwas Trethomas
9
8
Y Fan
Machen Rudry
Sant Martin
1. Aberbargoed Bargoed
2. Gilfach
3. Coed-duon
4. Cefn Fforest Pengam
5. Hengoed
6. Maesycwmwr
7. Llanbradach
8. Morgan Jones
9. Penyrheol
10. Penmaen
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

## Pennod 3. ARGYMHELLION TERFYNOL

1. Disgrifir argymhellion y Comisiwn yn fanwl yn y bennod hon. Ar gyfer pob argymhelliad newydd, mae'r adroddiad yn amlinellu:
   - Enw(au) y wardiau etholiadol presennol sy'n ffurfio'r ward etholiadol argymelledig yn gyfan gwbl neu'n rhannol;
   - disgrifiad byr o'r trefniadau presennol o ran nifer yr etholwyr a'r aelodau etholedig;
   - dadleuon allweddol a wnaed yn ystod trafodaethau'r Comisiwn;
   - safbwyntiau'r Comisiwn;
   - cyfansoddiad y ward etholiadol argymelledig a'r enw argymelledig;
   - map o'r ward etholiadol argymelledig (gweler yr allwedd isod).

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (black box) | Ffin Ward Etholiadol Argymelledig | (red box) | Ffiniau Cymunedol | (green box) | Ffiniau Wardiau Cymunedol |

### Wardiau Etholiadol a Gedwir

2. Mae'r Comisiwn wedi ystyried trefniadau etholiadol y wardiau etholiadol presennol a'r gymhareb etholwyr llywodraeth leol i gynghorwyr. Argymhellir y dylid cadw'r trefniadau presennol ar gyfer y wardiau canlynol, gan fod pob un ond tair 3 (Cwm Aber, Crosskeys, ac Ynys-ddu) o fewn yr amrywiant +/- 20% derbyniol o'r Cyfartaledd Sirol Argymelledig. Mae'r enwau isod fel y maent yn ymddangos yng Ngorchymyn Caerffili (Trefniadau Etholiadol) 2021, gyda'r ffurf Gymraeg yn gyntaf.

   - Aber-carn | Abercarn
   - Cwm Aber | Aber Valley
   - Argoed
   - Bedwas a Threthomas |Bedwas and Trethomas
   - Coed-duon | Blackwood
   - Cefn Fforest a Phengam | Cefn Fforest and Pengam
   - Crosskeys
   - Crymlyn | Crumlin
   - Cwm Darran | Darran Valley
   - Hengoed
   - Llanbradach
   - Machen a Rhydri | Machen and Rudry
   - Maesycwmwr | Maesycwmmer
   - Morgan Jones
   - Moriah a Phontlotyn | Moriah and Pontlottyn
   - Nelson
   - Tredegar Newydd | New Tredegar
   - Trecelyn | Newbridge
   - Penmaen
   - Penyrheol
   - Pontllan-fraith |Pontllanfraith
   - Sant Catwg | St Cattwg
   - Sant Martin | St Martins
   - Twyncarno | Twyn Carno
   - Y Fan | Van
   - Ystrad Mynach
   - Ynys-ddu |Ynysddu

3. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli ward etholiadol Cwm Aber o 3 i 2 er mwyn sicrhau y byddai'r ward o fewn yr amrywiant +/- 20%. Yn rhan o'i argymhellion Terfynol, mae'r Comisiwn wedi argymell cadw'r trefniadau presennol ar gyfer y ward etholiadol. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod y trefniant hwn ar gyfer Cwm Aber yn arwain at lefel amrywiant nad yw'n dod o fewn y goddefiant +/-20%. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn, yn seiliedig ar y cynrychiolaethau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, ei bod yn briodol ystyried yr etholwyr ychwanegol o ddatblygiad tai newydd yn y ward,

nad oeddent wedi'u cynnwys yn y ffigurau rhagamcanol, a fyddai'n sicrhau y byddai'r ward yn dod o fewn yr amrywiant +/- 20% yn y dyfodol, gan wella cydraddoldeb etholiadol.

4. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Crosskeys ac Ynys-ddu i greu ward newydd o'r enw Crosskeys Ynys-ddu, a fyddai'n gwella'r amrywiant ar gyfer y ddwy ward yn sylweddol. O ganlyniad i'r cynrychiolaethau a gafwyd yn ystod y cyfnodau ymgynghori cychwynnol a drafft, mae'r Comisiwn wedi argymell cadw'r trefniadau presennol ar gyfer wardiau etholiadol Crosskeys ac Ynys-ddu. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod y trefniant hwn yn arwain at lefel amrywiant nad yw'n dod o fewn y goddefiant +/-20% ar gyfer y ddwy ward. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod y pwyntiau a godwyd yn y cynrychiolaethau a gafwyd, gan gynnwys bod y wardiau etholiadol o fewn etholaethau Seneddol a Senedd gwahanol, daearyddiaeth a hunaniaeth wahanol y ddwy ward, a'r ffaith nad oes cysylltiadau hanesyddol rhwng y wardiau, wedi'u seilio ar dystiolaeth dda a'u bod yn rhesymau cryf dros gadw'r trefniadau presennol. Mae'r Comisiwn hefyd yn cydnabod bod cynrychiolaethau, deiseb a chanlyniad yr arolwg etholiadol diwethaf, ynghyd â'r ffaith y bydd y lefel amrywiant ar gyfer y ddwy ward, sef Crosskeys -26% ac Ynys-ddu -24%, ychydig yn unig y tu allan i'r amrywiant +/- 20% yn y dyfodol yn rhesymau cryf dros gadw'r trefniadau presennol ar gyfer y ddwy ward.

5. Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft ynglŷn â ward etholiadol y Coed-duon. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cadw'r trefniadau presennol ar gyfer y ward gan na fyddai'r cynnydd rhagamcanol yn nifer yr etholwyr a gyflwynwyd yn y cynrychiolaethau yn cyfiawnhau cynghorydd ychwanegol oherwydd byddai'r ward yn dod o fewn yr amrywiant +/- 20% o hyd. Mae'r Comisiwn hefyd yn credu bod y dyraniad cynghorwyr presennol yn sicrhau bod gan y ward amrywiant cymharol â wardiau etholiadol eraill o faint tebyg yn ardal y prif gyngor.

### Enwau Argymelledig ar gyfer Wardiau Etholiadol a Gedwir

6. Yn rhan o arolwg etholiadol, mae'r Comisiwn yn ystyried enwau wardiau etholiadol yn yr ardal sy'n destun arolwg. Yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn argymell newidiadau i enw ward etholiadol os yw'n ystyried y gellir gwella'r enw, p'un a yw'r Comisiwn hefyd yn argymell newidiadau i drefniadau etholiadol eraill sy'n effeithio ar y ward honno ai peidio. Yng ngoleuni dyletswydd y Comisiwn i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn ffafrio un enw Cymraeg ar gyfer wardiau etholiadol sydd hefyd yn dderbyniol yn y Saesneg.

7. Mae gan ward etholiadol bresennol **Aber-carn** yr enw Cymraeg presennol **Aber-carn**, a'r enw Saesneg presennol **Abercarn**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Aber-carn** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

8. Mae gan ward etholiadol bresennol **Cwm Aber** yr enw Cymraeg presennol **Cwm Aber**, a'r enw Saesneg presennol **Aber Valley**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Cymraeg **Cwm Aber**, a'r enw Saesneg **Aber Valley** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig.

9. Mae gan ward etholiadol bresennol **Argoed** yr enw unigol presennol **Argoed**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw unigol **Argoed** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

10. Mae gan ward etholiadol bresennol **Bedwas a Threthomas** yr enw Cymraeg presennol **Bedwas a Threthomas**, a'r enw Saesneg presennol **Bedwas and Trethomas**. Mae'r Comisiwn

yn argymell yr enw unigol **Bedwas Trethomas** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw argymelledig.

11. Mae gan ward etholiadol bresennol **Coed-duon** yr enw Cymraeg presennol **Coed-duon**, a’r enw Saesneg presennol **Blackwood**. Mae’r Comisiwn yn argymell cadw’r enw Cymraeg **Coed-duon**, a’r enw Saesneg **Blackwood** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enwau argymelledig.

12. Mae gan ward etholiadol bresennol **Cefn Fforest a Phengam** yr enw Cymraeg presennol **Cefn Fforest a Phengam**, a’r enw Saesneg presennol **Cefn Fforest and Pengam**. Mae’r Comisiwn yn argymell yr enw unigol **Cefn Fforest Pengam** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw argymelledig.

13. Mae gan ward etholiadol bresennol **Crosskeys** yr enw unigol presennol **Crosskeys**. Mae’r Comisiwn yn argymell cadw’r enw unigol **Crosskeys** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw argymelledig.

14. Mae gan ward etholiadol bresennol **Crymlyn** yr enw Cymraeg presennol **Crymlyn**, a’r enw Saesneg presennol **Crumlin**. Mae’r Comisiwn yn argymell cadw’r enw Cymraeg **Crymlyn**, a’r enw Saesneg **Crumlin** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enwau argymelledig.

15. Mae gan ward etholiadol bresennol **Cwm Darran** yr enw Cymraeg presennol **Cwm Darran**, a’r enw Saesneg presennol **Darran Valley**. Mae’r Comisiwn yn argymell yr enw unigol **Cwm Darran**, fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

16. Mae gan ward etholiadol bresennol **Hengoed** yr enw unigol presennol **Hengoed**. Mae’r Comisiwn yn argymell cadw’r enw unigol **Hengoed** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw argymelledig.

17. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llanbradach** yr enw unigol presennol **Llanbradach**. Mae’r Comisiwn yn argymell cadw’r enw unigol **Llanbradach** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw argymelledig.

18. Mae gan ward etholiadol bresennol **Machen a Rhydri** yr enw Cymraeg presennol **Machen a Rhydri**, a’r enw Saesneg presennol **Machen and Rudry**. Mae’r Comisiwn yn argymell yr enw Cymraeg **Machen Rhydri**, a’r enw Saesneg **Machen Rudry** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enwau argymelledig.

19. Mae gan ward etholiadol bresennol **Maesycwmwr** yr enw Cymraeg presennol **Maesycwmwr**, a’r enw Saesneg presennol **Maesycwmmer**. Argymhellodd Comisiynydd y Gymraeg gadw’r enw Saesneg **Maesycwmmer**, a’r enw Cymraeg **Maesycwmwr** i fod yn gyson â’r hyn a ddefnyddir gan Gyngor Caerffili. Mae’r Comisiwn yn argymell yr enw unigol **Maesycwmwr** ar gyfer y ward etholiadol, i fod yn gyson â’i bolisi enwi ar gyfer Rhaglen Arolygon Etholiadol 2025 ac i gyd-fynd â rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru.

20. Mae gan ward etholiadol bresennol **Morgan Jones** yr enw unigol presennol **Morgan Jones**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw unigol **Morgan Jones** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

21. Mae gan ward etholiadol bresennol **Moriah a Phontlotyn** yr enw Cymraeg presennol **Moriah a Phontlotyn**, a'r enw Saesneg presennol **Moriah and Pontlottyn**. Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol **Moriah Pontlotyn** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig.

22. Mae gan ward etholiadol bresennol **Nelson** yr enw unigol presennol **Nelson**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw unigol **Nelson** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

23. Mae gan ward etholiadol bresennol **Tredegar Newydd** yr enw Cymraeg presennol **Tredegar Newydd**, a'r enw Saesneg presennol **New Tredegar**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Cymraeg **Tredegar Newydd**, a'r enw Saesneg **New Tredegar** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig.

24. Mae gan ward etholiadol bresennol **Trecelyn** yr enw Cymraeg presennol **Trecelyn**, a'r enw Saesneg presennol **Newbridge**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Cymraeg **Trecelyn**, a'r enw Saesneg **Newbridge** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig.

25. Mae gan ward etholiadol bresennol **Penmaen** yr enw unigol presennol **Penmaen**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw unigol **Penmaen** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

26. Mae gan ward etholiadol bresennol **Penyrheol** yr enw unigol presennol **Penyrheol**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw unigol **Penyrheol** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

27. Mae gan ward etholiadol bresennol **Pontllan-fraith** yr enw Cymraeg presennol **Pontllan-fraith**, a'r enw Saesneg presennol **Pontllanfraith**. Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol **Pontllan-fraith**. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

28. Mae gan ward etholiadol bresennol **Sant Catwg** yr enw Cymraeg presennol **Sant Catwg**, a'r enw Saesneg presennol **St Cattwg**. Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol **Sant Catwg** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

29. Mae gan ward etholiadol bresennol **Sant Martin** yr enw Cymraeg presennol **Sant Martin**, a'r enw Saesneg presennol **St Martins**. Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol **Sant Martin** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

30. Mae gan ward etholiadol bresennol **Twyncarno** yr enw Cymraeg presennol **Twyncarno**, a'r enw Saesneg presennol **Twyn Carno**. Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol **Twyncarno** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

31. Mae gan ward etholiadol bresennol **Y Fan** yr enw Cymraeg presennol **Y Fan**, a’r enw Saesneg presennol **Van**. Mae’r Comisiwn yn argymell cadw’r enw Cymraeg **Y Fan**, a’r enw Saesneg **Van** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enwau argymelledig.

32. Mae gan ward etholiadol bresennol **Ystrad Mynach** yr enw unigol presennol **Ystrad Mynach**. Mae’r Comisiwn yn argymell cadw’r enw unigol **Ystrad Mynach** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw argymelledig.

33. Mae gan ward etholiadol bresennol **Ynys-ddu** yr enw Cymraeg presennol **Ynys-ddu**, a’r enw Saesneg presennol **Ynysddu**. Mae’r Comisiwn yn argymell yr enw unigol **Ynys-ddu** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw argymelledig.

### Wardiau Etholiadol Argymelledig

34. Mae’r Comisiwn wedi ystyried newidiadau i’r wardiau etholiadol sy’n weddill. Rhoddir manylion y trefniadau etholiadol presennol yn Atodiad 1. Rhoddir trefniadau argymelledig y Comisiwn yn Atodiad 2.

35. Yn yr adran ganlynol, wrth gyfeirio at wardiau etholiadol presennol, mae’r Adroddiad yn cyfeirio at y wardiau etholiadol fel y’u hargymhellir gan y newidiadau canlyniadol yn Argymhellion Terfynol Arolwg Cymunedol Caerffili. Derbyniwyd yr argymhellion hyn yn llawn gan Weinidogion Llywodraeth Cymru ar 4 Mehefin 2025. Mae Argymhellion Terfynol Arolwg Cymunedol Caerffili ar gael ar wefan Comisiwn.

## DWYRAIN RHISGA A GORLLEWIN RHISGA

28. Mae ward etholiadol bresennol Dwyrain Rhisga yn cynnwys wardiau cymunedol Trenewydd, Pont-y-meistr Tŷ Sign, a Phont-y-meistr Uchaf yng Nghymuned Rhisga. Mae gan y ward etholiadol 4,728 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 19% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,954. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 4,730 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 19% yn is na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,954.

29. Mae ward etholiadol bresennol Gorllewin Rhisga yn cynnwys wardiau cymunedol Dan-y-graig, Pont-y-meistr Isaf, Tref Rhisga a Fernlea, a Chaeau Tŷ-Isaf ac Ochrwyth yng Nghymuned Rhisga. Mae gan y ward etholiadol 3,979 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 2% yn uwch na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,954. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 3,981 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 2% yn uwch na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,954.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dwyrain Rhisga | 4,728 | 3 | 1,576 | -19% | 4,730 | 1,577 | -19% |
| Gorllewin Rhisga | 3,979 | 2 | 1,990 | 2% | 3,981 | 1,991 | 2% |
| | **8,707** | **5** | | | **8,711** | | |

### Cynigion Drafft

30. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga i ffurfio ward etholiadol.

### Cynrychiolaethau

31. Cafodd y Comisiwn 18 o gynrychiolaethau ynglŷn â wardiau etholiadol Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft gan Weithgor Trawsbleidiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CCBCCPWG), y Cynghorydd Sir Bob Owen (2 gynrychiolaeth), y Cynghorydd Cymuned Michael Wedderien, a 14 aelod o'r cyhoedd. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Argymhellion ffiniau Wardiau Etholiadol

32. Mae'r Comisiwn yn argymell gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol, sy'n arwain at un yn llai o gynghorwyr sir ar gyfer yr ardal:

- Cyfuno wardiau etholiadol Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga

33. Mae'r Comisiwn yn argymell cyfuno wardiau etholiadol presennol Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga. Mae'r argymhelliad hwn yn mynd i'r afael â'r lefel amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol argymelledig yn ward etholiadol Dwyrain Rhisga. Mae'r Comisiwn yn argymell neilltuo pedwar cynghorydd sir i'r ward etholiadol, sydd un yn llai na nifer gyffredinol y cynghorwyr sir yn yr ardal. Ystyriodd y Comisiwn y gynrychiolaeth a gafwyd gan CCBCCPWG yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft sy'n gwrthwynebu cyfuno'r wardiau etholiadol ac yn gofyn am gael cadw'r trefniadau presennol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r gefnogaeth ysgubol o blaid cyfuno'r wardiau yn y cynrychiolaethau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft, hanes a hunaniaeth cyffredin y dref, a'r ffaith bod yr argymhelliad yn creu ward

etholiadol sy'n cydffinio â Chymuned Rhisga, yn darparu ffiniau adnabyddadwy i'r etholwyr ac yn gwella llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.


34. Byddai 8,707 o etholwyr yn ward etholiadol argymelledig Rhisga, a gynrychiolir gan 4 cynghorydd, sydd 10% yn uwch na'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 1,982. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 8,711 o etholwyr a gynrychiolir gan 4 cynghorydd, sydd 10% yn uwch na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol argymelledig, sef 1,983.

### Enwau Argymelledig

35. Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw Saesneg newydd **Risca** ar gyfer y ward etholiadol, a'r enw Cymraeg newydd **Rhisga**. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig ar gyfer y ward newydd.

36. Ystyriodd y Comisiwn y gynrychiolaeth gan aelod o'r cyhoedd a ofynnodd i enw'r ward etholiadol newydd gynnwys Pont-y-meistr. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw newydd Rhisga yn adnabyddadwy i etholwyr, yn adnabyddus yn lleol ac yn adlewyrchu'r enw cymunedol ar gyfer yr ardal.

# Rhisga




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

## ABERBARGOD A BARGOD, A GILFACH

37. Mae ward etholiadol bresennol Aberbargod a Bargod yn cynnwys wardiau trefol Aberbargod, Bargod, a Pharc yn Nhref Bargod. Mae gan y ward etholiadol 7,086 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 21% yn uwch na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,954. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 7,088 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 21% yn uwch na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,954.

38. Mae ward etholiadol bresennol Gilfach yn cynnwys ward drefol Gilfach yn Nhref Bargod. Mae gan y ward etholiadol 1,632 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 16% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,954. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 1,633 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 16% yn is na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,954.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberbargod a Bargod | 7,086 | 3 | 2,362 | 21% | 7,088 | 2,363 | 21% |
| Gilfach | 1,632 | 1 | 1,632 | -16% | 1,633 | 1,633 | -16% |
| | **8,718** | **4** | | | **8,721** | | |

### Cynigion Drafft

39. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Aberbargod a Bargod, a Gilfach i ffurfio ward etholiadol.

### Cynrychiolaethau

40. Cafodd y Comisiwn 8 cynrychiolaeth ynglŷn â wardiau etholiadol Aberbargod a Bargod, a Gilfach yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft gan CCBCCPWG, y Cynghorydd Sir Carol Andrews (2 gynrychiolaeth), Cyngor Tref Bargod, y Cynghorydd Cymuned John Declan McCarthy, a thri aelod o'r cyhoedd. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Argymhellion ffiniau Wardiau Etholiadol

41. Mae'r Comisiwn yn argymell gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol, sy'n cadw nifer gyffredinol y cynghorwyr sir ar gyfer yr ardal:

- Trosglwyddo ward drefol Parc i ward etholiadol Gilfach

41. Mae'r Comisiwn yn argymell bod ward drefol Parc yn cael ei throsglwyddo i ward etholiadol Gilfach er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol presennol yn ward etholiadol Aberbargod a Bargod. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r dyraniad presennol o gynghorwyr ar gyfer y ddwy ward etholiadol. Mae'r argymhelliad hwn wedi'i seilio ar y cynrychiolaethau a gafwyd gan y Cynghorydd Sir Carol Andrews, Cyngor Tref Bargod, a'r Cynghorydd Cymuned John Declan McCarthy a awgrymodd fod gan ward drefol Parc gysylltiad â ward etholiadol Gilfach ac felly byddai ei throsglwyddo'n gwella llywodraeth leol effeithiol a chyfleus a chydraddoldeb etholiadol. Mae'r argymhelliad hwn yn creu dwy ward etholiadol sy'n ffurfio Tref Bargod, gan ddarparu ffiniau adnabyddadwy i'r etholwyr a chynnal cysylltiadau cymunedol a thrafnidiaeth.

42. Byddai 2,320 o etholwyr yn ward etholiadol argymelledig Gilfach, a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 17% yn uwch na’r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 1,982. Mae’r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 2,321 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 17% yn uwch na’r cyfartaledd sirol rhagamcanol argymelledig, sef 1,983.


43. Byddai 6,398 o etholwyr yn ward etholiadol argymelledig Aberbargoed Bargod, a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 8% yn uwch na’r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 1,982. Mae’r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 6,400 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 8% yn uwch na’r cyfartaledd sirol rhagamcanol argymelledig, sef 1,983.

### Enwau Argymelledig


44. Mae’r Comisiwn yn argymell cadw’r enw unigol presennol **Gilfach** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw argymelledig.

45. Mae’r Comisiwn hefyd yn argymell yr enw unigol newydd **Aberbargoed Bargoed** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw .

# Aberbargoed Bargoed




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


Gilfach
0
0.5
Cilomedrau
Graddfa 1:10,090
Ward
Y Parc
Rhan o Dref
Bargod
Ward
Gilfach
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

## Pennod 4. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

1. Ar ôl cwblhau'r arolwg o ardal y prif gyngor a chyflwyno ei argymhellion i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r trefniadau etholiadol ar gyfer y prif awdurdod yn y dyfodol, mae'r Comisiwn wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf.

2. Llywodraeth Cymru sydd bellach yn gyfrifol, os gwêl yn dda, am weithredu'r argymhellion hyn naill ai fel y'u cyflwynwyd neu gydag addasiadau.

3. Dylai unrhyw sylwadau ychwanegol ynglŷn â'r materion yn yr adroddiad hwn gael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl a, sut bynnag, heb fod yn hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Lywodraeth Cymru. Dylid cyfeirio cynrychiolaethau at:

   Yr Is-adran Etholiadau
   Llywodraeth Cymru
   Parc Cathays
   Caerdydd
   CF10 3NQ

   Neu drwy anfon neges e-bost at:

   Etholiadau.elections@gov.wales

4. I gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg a'r broses arolygu, gweler tudalen we'r Comisiwn: www.cdffc.llyw.cymru

## Pennod 5. CYDNABYDDIAETHAU

1. Hoffai'r Comisiwn ddiolch i'r prif gyngor, yr holl gynghorau cymuned a thref a'r cyrff a'r unigolion eraill â buddiant a wnaeth gynrychiolaethau i ni yn ystod y broses o ddatblygu'r argymhellion terfynol hyn. Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn cymeradwyo'r adroddiad argymhellion hwn.

**KAREN JONES DL, MBA, MA(HRM), FCIPD (Cadeirydd)**



**MICHAEL IMPERATO (Dirprwy Gadeirydd)**



**DIANNE BEVAN (Aelod)**



**FRANK CUTHBERT (Aelod)**



**GINGER WIEGAND (Aelod)**



**BETHAN PRICE (Aelod)**



**FRANCES DUFFY (Aelod)**



**SHEREEN WILLIAMS MBE, OStJ, DL (Prif Weithredwr)**



**Mawrth 2026**

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
## AELODAETH CYNGOR SIR ARFAETHEDIG

Atodiad 1

| Rhif. | ENW | DISGRIFIAD | Nifer y CYNGHORWYR (Arfaethedig) | ETHOLWYR - 2025 | CYMHAREB 2025 | % Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol Arfaethedig | ETHOLWYR - 2030 | CYMHAREB 2030 | % Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol Arfaethedig | % Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol Arfaethedig | Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Cwm Aber** | Cymuned Cwm Aber (4,666), [4,668] | 3 | 4,666 | 1,555 | -20% | 3 | 4,668 | 1,556 | -20% | 6,385 |
| 2 | **Aberbargod a Bargod** | Wardiau Aberbargod (2,779), [2,780], Bargod (3,619), [3,620] a'r Parc (688), [688] o Dref Bargod | 3 | 7,086 | 2,362 | 21% | 3 | 7,088 | 2,363 | 21% | 9,963 |
| 3 | **Aber-carn** | Cymuned Aber-carn (4,075), [4,076] | 2 | 4,075 | 2,038 | 4% | 2 | 4,076 | 2,038 | 4% | 5,419 |
| 4 | **Argoed** | Cymuned Argoed (2,062), [2,062] | 1 | 2,062 | 2,062 | 6% | 1 | 2,062 | 2,062 | 6% | 2,764 |
| 5 | **Bedwas a Threthomas** | Wardiau Bedwas (3,488), [3,3489] a Threthomas (1,794), [1,795] o Gymuned Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri | 3 | 5,282 | 1,761 | -10% | 3 | 5,284 | 1,761 | -10% | 6,561 |
| 6 | **Coed-duon** | Tref Coed-duon (6,508), [6,511] | 3 | 6,508 | 2,169 | 11% | 3 | 6,511 | 2170.3333 | 11% | 8,158 |
| 7 | **Cefn Fforest a Phengam** | Cymuned Cefn Fforest a Phengam (5,747), [5,749] | 3 | 5,747 | 1,916 | -2% | 3 | 5,749 | 1,916 | -2% | 7,358 |
| 8 | **Crosskeys** | Cymuned Crosskeys (2,501), [2,502] | 1 | 2,501 | 2,501 | 28% | 1 | 2,502 | 2,502 | 28% | 3,249 |
| 9 | **Crymlyn** | Cymuned Crymlyn (4,441), [4,442] | 2 | 4,441 | 2,221 | 14% | 2 | 4,442 | 2,221 | 14% | 5,801 |
| 10 | **Cwm Darran** | Cymuned Cwm Darran (1,867), [1,867] | 1 | 1,867 | 1,867 | -4% | 1 | 1,867 | 1,867 | -4% | 2,482 |
| 11 | **Gilfach** | Ward Gilfach (1,632), [1,633] o Dref Bargod | 1 | 1,632 | 1,632 | -16% | 1 | 1,633 | 1,633 | -16% | 2,065 |
| 12 | **Hengoed** | Wardiau Cefn Hengoed (1,640), [1,641] a Hengoed (2,203), [2,204] o Gymuned Gelli-gaer | 2 | 3,843 | 1,922 | -2% | 2 | 3,845 | 1,923 | -2% | 5,560 |
| 13 | **Llanbradach** | Cymuned Llanbradach a Phwll-y-pant (3,245), [3,247] | 2 | 3,245 | 1,623 | -17% | 2 | 3,247 | 1,624 | -17% | 3,991 |
| 14 | **Machen a Rhydri** | Wardiau Machen (2,964), [2,965] a Rhydri (901), [901] o Gymuned Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri | 2 | 3,865 | 1,933 | -1% | 2 | 3,866 | 1,933 | -1% | 5,121 |
| 15 | **Maesycwmwr** | Cymuned Maesycwmwr (1,797), [1,798] | 1 | 1,797 | 1,797 | -8% | 1 | 1,798 | 1,798 | -8% | 2,495 |
| 16 | **Morgan Jones** | Wardiau Bryncenydd (858), [858], Parcyfelin (3,610), [3,611] a Thonyfelin (1,347) , [1,347] o Dref Caerffili | 3 | 5,815 | 1,938 | -1% | 3 | 5,816 | 1,939 | -1% | 7,607 |
| 17 | **Moriah a Phontlotyn** | Wardiau Abertysswg (1,045), [1,045], St David's a Moriah (1,607), [1,607] a Phontlotyn (1,363), [1,364] o Gymuned Rhymni | 2 | 4,015 | 2,008 | 3% | 2 | 4,016 | 2,008 | 3% | 5,390 |
| 18 | **Nelson** | Cymuned Nelson (3,545), [3,546] | 2 | 3,545 | 1,773 | -9% | 2 | 3,546 | 1,773 | -9% | 4,427 |
| 19 | **Tredegar Newydd** | Cymuned Tredegar Newydd (3,330), [3,330] | 2 | 3,330 | 1,665 | -15% | 2 | 3,330 | 1,665 | -15% | 4,661 |
| 20 | **Trecelyn** | Cymuned Trecelyn (4,873), [4,875] | 3 | 4,873 | 1,624 | -17% | 3 | 4,875 | 1,625 | -17% | 6,259 |
| 21 | **Penmaen** | Cymuned Penmaen (4,562), [4,564] | 2 | 4,562 | 2,281 | 17% | 2 | 4,564 | 2,282 | 17% | 5,716 |
| 22 | **Penyrheol** | Cymuned Penyrheol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn (9,297), [9,301] | 4 | 9,297 | 2,324 | 19% | 4 | 9,301 | 2,325 | 19% | 12,140 |
| 23 | **Pontllan-fraith** | Cymuned Pontllan-fraith (6,673), [6,675] | 3 | 6,673 | 2,224 | 14% | 3 | 6,675 | 2,225 | 14% | 8,269 |
| 24 | **Dwyrain Rhisga** | Wardiau Pontymister Tŷ Sign (1,848), [1,849], Pontymister Uchaf (1,333), [1,333], a Trenewydd (1,547), [1,548] o Gymuned Rhisga | 3 | 4,728 | 1,576 | -19% | 3 | 4,730 | 1,577 | -19% | 6,164 |
| 25 | **Gorllewin Rhisga** | Wardiau Pontymister Isaf (644), [644], Rhisga Fernlea a'r Dref, (1,384), [1,385], Rhisga Dan-y-graig (461), [461] a Caeau Tŷ Isaf ac Ochrwyth (1,490), [1,491] o Gymuned Rhisga | 2 | 3,979 | 1,990 | 2% | 2 | 3,981 | 1,991 | 2% | 5,076 |
| 26 | **Sant Cattwg** | Wardiau Cascade (2,853), [2,854], Greenhill (1,710), [1,711] a Tir-y-berth (1,078), [1,078] o Gymuned Gelli-gaer | 3 | 5,641 | 1,880 | -4% | 3 | 5,643 | 1,881 | -4% | 7,419 |
| 27 | **Sant Martin** | Wardiau'r Castell (1,390) , [1,390], Cwrt Rawlins (2,268), [2,269], Twyn (1,702) , [1,703] a Watford (1,301) , [1,301] o Dref Caerffili | 3 | 6,661 | 2,220 | 14% | 3 | 6,663 | 2,221 | 14% | 8,470 |
| 28 | **Twyncarno** | Ward Twyncarno (2,255), [2,256] o Gymuned Rhymni | 1 | 2,255 | 2,255 | 15% | 1 | 2,256 | 2,256 | 15% | 3,105 |
| 29 | **Y Fan** | Cymuned y Fan (3,305), [3,306] | 2 | 3,305 | 1,653 | -15% | 2 | 3,306 | 1,653 | -15% | 4,682 |
| 30 | **Ynys-ddu** | Cymuned Ynys-ddu (3,013), [3,014] | 2 | 3,013 | 1,507 | -23% | 2 | 3,014 | 1,507 | -23% | 3,908 |
| 31 | **Ystrad Mynach** | Ward Ystrad Mynach (4,487), [4,488] o Gymuned Gelli-gaer | 2 | 4,487 | 2,244 | 15% | 2 | 4,488 | 2,244 | 15% | 5,465 |
| | | CYFANSWM:: | 69 | 134,796 | 1,954 | | 69 | 134,842 | 1,954 | | |

Cymhareb yw'r nifer o etholwyr fesul cynghorydd

Ffigyrau Etholiadol wedi'u darparu gan Cyngor Bwrdeistrefol Caerffili

| | 2025 | | 2030 | |
|---|---|---|---|---|
| Yn fwy na + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Rhwng + neu - 20% a + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol | 4 | 13% | 4 | 13% |
| Rhwng + neu - 10% a + neu - 20% o'r Cyfartaledd Sirol | 14 | 45% | 14 | 45% |
| Rhwng 0% a + neu - 10% o'r Cyfartaledd Sirol | 13 | 42% | 13 | 42% |

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
## AELODAETH Y CYNGOR ARFAETHEDIG

Atodiad 2

| Rhif. | ENW | DISGRIFIAD Fel y'i argymhellir | Nifer y CYNGHORWYR (Arfaethedig) | ETHOLWYR 2025 | Cymhareb 2025 | % amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig | ETHOLWYR 2030 | Cymhareb 2030 | % amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Cwm Aber** | Cymuned Cwm Aber (4,666), [4,668] | 3 | 4,666 | 1,555 | -22% | 4,668 | 1,556 | -22% |
| 2 | **Aberbargoed Bargoed** | Wardiau Aberbargod (2,779), [2,780 a Bargod (3,619), [3,620] o Dref Bargod | 3 | 6,398 | 2,133 | 8% | 6,400 | 2,133 | 8% |
| 3 | **Aber-carn** | Cymuned Aber-carn (4,075), [4,076] | 2 | 4,075 | 2,038 | 3% | 4,076 | 2,038 | 3% |
| 4 | **Argoed** | Cymuned Argoed (2,062), [2,062] | 1 | 2,062 | 2,062 | 4% | 2,062 | 2,062 | 4% |
| 5 | **Bedwas Trethomas** | Wardiau Bedwas (3,488), [3,3489] a Threthomas (1,794), [1,795] o Gymuned Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri | 3 | 5,282 | 1,761 | -11% | 5,284 | 1,761 | -11% |
| 6 | **Coed-duon** | Tref Coed-duon (6,508), [6,511] | 3 | 6,508 | 2,169 | 9% | 6,511 | 2,170 | 9% |
| 7 | **Cefn Fforest Pengam** | Cymuned Cefn Fforest a Phengam (5,747), [5,749] | 3 | 5,747 | 1,916 | -3% | 5,749 | 1,916 | -3% |
| 8 | **Crosskeys** | Cymunedau Crosskeys (2,501), [2,502] | 1 | 2,501 | 2,501 | 26% | 2,502 | 2,502 | 26% |
| 9 | **Crymlyn** | Cymuned Crymlyn (4,441), [4,442] | 2 | 4,441 | 2,221 | 12% | 4,442 | 2,221 | 12% |
| 10 | **Cwm Darran** | Cymuned Cwm Darran (1,867), [1,867] | 1 | 1,867 | 1,867 | -6% | 1,867 | 1,867 | -6% |
| 11 | **Gilfach** | Wardiau Gilfach (1,632), [1,633], a'r Parc (688), [688] o Dref Bargod | 1 | 2,320 | 2,320 | 17% | 2,321 | 2,321 | 17% |
| 12 | **Hengoed** | Wardiau Cefn Hengoed (1,640), [1,641] a Hengoed (2,203), [2,204] o Gymuned Gelli-gaer | 2 | 3,843 | 1,922 | -3% | 3,845 | 1,923 | -3% |
| 13 | **Llanbradach** | Cymuned Llanbradach a Phwll-y-pant (3,245), [3,247] | 2 | 3,245 | 1,623 | -18% | 3,247 | 1,624 | -18% |
| 14 | **Machen Rhydri** | Wardiau Machen (2,964), [2,965] a Rhydri (901), [901] o Gymuned Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri | 2 | 3,865 | 1,933 | -3% | 3,866 | 1,933 | -3% |
| 15 | **Maesycwmwr** | Cymuned Maesycwmwr (1,797), [1,798] | 1 | 1,797 | 1,797 | -9% | 1,798 | 1,798 | -9% |
| 16 | **Morgan Jones** | Wardiau Bryncenydd (858), [858], Parcyfelin (3,610), [3,611] a Thonyfelin (1,347) , [1,347] o Dref Caerffili | 3 | 5,815 | 1,938 | -2% | 5,816 | 1,939 | -2% |
| 17 | **Moriah Pontlotyn** | Wardiau Abertysswg (1,045), [1,045], St David's a Moriah (1,607), [1,607] a Phontlotyn (1,363), [1,364] o Gymuned Rhymni | 2 | 4,015 | 2,008 | 1% | 4,016 | 2,008 | 1% |
| 18 | **Nelson** | Cymuned Nelson (3,545), [3,546] | 2 | 3,545 | 1,773 | -11% | 3,546 | 1,773 | -11% |
| 19 | **Tredegar Newydd** | Cymuned Tredegar Newydd (3,330), [3,330] | 2 | 3,330 | 1,665 | -16% | 3,330 | 1,665 | -16% |
| 20 | **Trecelyn** | Cymuned Trecelyn (4,873), [4,875] | 3 | 4,873 | 1,624 | -18% | 4,875 | 1,625 | -18% |
| 21 | **Penmaen** | Cymuned Penmaen (4,562), [4,564] | 2 | 4,562 | 2,281 | 15% | 4,564 | 2,282 | 15% |
| 22 | **Penyrheol** | Cymuned Penyrheol, Trecenydd ac Eneu'r-glyn (9,297), [9,301] | 4 | 9,297 | 2,324 | 17% | 9,301 | 2,325 | 17% |
| 23 | **Pontllan-fraith** | Cymuned Pontllan-fraith (6,673), [6,675] | 3 | 6,673 | 2,224 | 12% | 6,675 | 2,225 | 12% |
| 24 | **Rhisga** | Cymuned Rhisga (8,707), [8,711] | 4 | 8,707 | 2,177 | 10% | 8,711 | 2,178 | 10% |
| 25 | **Sant Catwg** | Wardiau Cascade (2,853), [2,854], Greenhill (1,710), [1,711] a Tir-y-berth (1,078), [1,078] o Gymuned Gelli-gaer | 3 | 5,641 | 1,880 | -5% | 5,643 | 1,881 | -5% |
| 26 | **Sant Martin** | Wardiau'r Castell (1,390) , [1,390], Cwrt Rawlins (2,268), [2,269], Twyn (1,702) , [1,703] a Watford (1,301) , [1,301] o Dref Caerffili | 3 | 6,661 | 2,220 | 12% | 6,663 | 2,221 | 12% |
| 27 | **Twyncarno** | Ward Twyncarno (2,255), [2,256] o Gymuned Rhymni | 1 | 2,255 | 2,255 | 14% | 2,256 | 2,256 | 14% |
| 28 | **Y Fan** | Cymuned y Fan (3,305), [3,306] | 2 | 3,305 | 1,653 | -17% | 3,306 | 1,653 | -17% |
| 29 | **Ynys-ddu** | Cymuned Ynys-ddu (3,013), [3,014] | 2 | 3,013 | 1,507 | -24% | 3,014 | 1,507 | -24% |
| 30 | **Ystrad Mynach** | Ward Ystrad Mynach (4,487), [4,488] o Gymuned Gelli-gaer | 2 | 4,487 | 2,244 | 13% | 4,488 | 2,244 | 13% |
| | | CYFANSWM: | 68 | 134,796 | 1,982 | | 134,842 | 1,983 | |

Cymhareb yw'r nifer o etholwyr fesul cynghorydd

Ffigyrau Etholiadol wedi'u darparu gan Cyngor Bwrdeistrefol Caerffili

| | 2025 | | 2030 | |
|---|---|---|---|---|
| Yn fwy na + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Rhwng + neu - 20% a + neu - 50% o'r Cyfartaledd Sirol | 3 | 10% | 3 | 10% |
| Rhwng + neu - 10% a + neu - 20% o'r Cyfartaledd Sirol | 14 | 47% | 14 | 47% |
| Rhwng 0% a + neu - 10% o'r Cyfartaledd Sirol | 13 | 43% | 13 | 43% |

© Hawlfraint CDFfC 2026